



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd

Canllawiau statudol i awdurdodau lleol a
chyrff llywodraethu



Canllawiau

Dogfen ganllawiau rhif: 145/2014
Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2014

Brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd

- Cynulleidfa** Awdurdodau lleol yn ogystal â chyrrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion cynradd a gynhelir (gan gynnwys ysgolion arbennig cymunedol).
- Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau statudol i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion cynradd a gynhelir ar ddyletswyddau a phwerau a gyflwynwyd o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 mewn perthynas â darparu brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd a gynhelir (BADdMYC).
- Camau i'w cymryd** Rhaid i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion cynradd a gynhelir roi sylw i'r canllawiau statudol hyn.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Y Gangen Lles Disgyblion
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: Breakfastinfo@cymru.gsi.gov.uk
- Copiau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn dysgu.cymru.gov.uk
- Dogfennau cysylltiedig** Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=3633
Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013
www.legislation.gov.uk/wsi/2013/1984/contents/made
Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009
www.legislation.gov.uk/mwa/2009/3/contents
Bwyta'n iach mewn ysgolion a gynhelir – Canllawiau statudol i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu
www.learning.wales.gov.uk/resources/healthy-eating-in-maintained-schools/?lang=cy
The Management of Health and Safety at Work Regulations 1999
www.legislation.gov.uk/uksi/1999/3242/contents/made
Mesur Gwastraff (Cymru) 2010
www.legislation.gov.uk/mwa/2010/8/contents

Cynnwys

| | |
|--|----|
| Cyflwyniad | 1 |
| Cefndir | 2 |
| Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 | 3 |
| Beth yw ystyr darpariaeth 'afresymol' o frechwastau am ddim mewn ysgolion cynradd? | 5 |
| Pwy sy'n darparu brechwastau am ddim? | 6 |
| Sefydlu darpariaeth brechwast am ddim mewn ysgolion cynradd | 7 |
| Eitemau bwyd brechwast am ddim | 11 |
| Cyrff llywodraethu sy'n ystyried tynnu'n ôl ddarpariaeth o frechwast am ddim | 13 |
| Penderfyniad awdurdod lleol i ddarparu, neu roi'r gorau i ddarparu, brechwastau am ddim | 14 |
| Materion deintyddol | 15 |
| Hyrwyddo sesiynau brechwast iach am ddim | 16 |
| Monitro | 17 |
| Darparu data | 18 |
| Atodiad A: Llythyr templed enghreifftiol y gall ysgol ei ddefnyddio i ganfod maint y diddordeb mewn sesiynau brechwast am ddim | 19 |
| Atodiad B: Templed asesiad risg iechyd a diogelwch | 21 |
| Atodiad C: Llythyr templed enghreifftiol i'w ddefnyddio gan gorff llywodraethu i hysbysu awdurdod lleol i roi'r gorau i ddarparu brechwast am ddim | 34 |
| Atodiad D: Llythyrau templed enghreifftiol i'w dyroddi gan awdurdod lleol i gorff llywodraethu ynglŷn â pheidio â darparu, neu roi'r gorau i ddarparu, brechwastau am ddim | 35 |

Cyflwyniad

Cydnabuwyd ers cryn amser mai brecwast yw pryd pwysicaf y dydd; ac mae ymchwil yn awgrymu bod plant sy'n cael cyfle i fwyta brecwast iachus a maethlon cyn dechrau'u diwrnod yn yr ysgol yn fwy tebygol o gyflawni eu potensial addysgol llawn¹.

Yn ogystal â sicrhau bod ein plant ieuengaf yn cael dechreuad teg, un arall o brif amcanion darparu brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd yw ceisio atal, mor gynnar yn oes y plentyn ag y bo modd, yr arferiad cynyddol o hepgor brecwast.

Statws y canllawiau

Dyroddir y canllawiau hyn o dan adran 88 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ('Deddf 2013')², sy'n darparu bod rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir roi sylw iddynt. O ganlyniad, rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ystyried y canllawiau hyn, ac os penderfynant wyro oddi wrthynt, cynnig rhesymau eglur a chyfiawnadwy dros wneud hynny.

Mae'r canllawiau hyn yn disodli *Menter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd, Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif 021/2008*.

¹ Adolygiad o Lenyddiaeth y Fenter Brecwast am Ddim:
<http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/foodanddrink/breakfast/initiative/advantages/?lang=cy>

² Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013:
www.legislation.gov.uk/anaw/2013/1/part/5/crossheading/free-breakfasts-in-primary-schools/enacted

Cefndir

Mae darparu brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd wedi bod yn rhan annatod o'r gwaith ehangach y bu Llywodraeth Cymru yn ei wneud dros y deng mlynedd diwethaf i wella bwyd a maetheg mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Ym Medi 2004, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei Menter Brecwast am Ddim yn yr ysgolion cynradd. Nod y fenter oedd gwella iechyd plant a'u gallu i ganolbwyntio, a thrwy hynny godi safonau dysgu a chyrhaeddiad. Ni fwriedid i'r fenter gymryd lle brecwastau a ddarperid eisoes gan rieni, ond yn hytrach sicrhau bod plant o oedran cynradd mewn ysgolion a gynhelir, nad oeddent wedi cael brecwast am ba bynnag reswm, yn cael brecwast iachus am ddim bob dydd yn yr ysgol.

Ers hynny, mae'r Fenter Brecwast am Ddim mewn ysgolion cynradd wedi ei rhoi ar waith fesul cam ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, a gweinyddid y fenter gyda grant penodol. Defnyddid y grant fel mecanwaith i fonitro'r defnydd a wneid o'r cynllun a'r costau a dynnid. Ar ôl sefydlu'r fenter yn llwyddiannus, penderfynwyd y byddai'n briodol trosglwyddo'r cyllid grant penodol i'r Grant Cynnal Refeniw (GCR) a'i gynnwys, o Ebrill 2013 ymlaen, yn rhan o'r Setliad Llywodraeth Leol; a penderfynwyd diogelu, trwy ddeddfwriaeth, y ddarpariaeth o frecwast am ddim.

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

Mae adran 88 o Ddeddf 2013 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i ddarparu brecwast am ddim ar bob diwrnod ysgol i ddysgwyr mewn ysgol gynradd a gynhelir ganddo os:

- yw corff llywodraethu'r ysgol wedi gwneud cais ysgrifenedig i'r awdurdod lleol am ddarparu brecwast yn yr ysgol
- aeth 90 diwrnod calendr heibio er pan gafwyd y cais ysgrifenedig.

Daeth y ddyletswydd hon i rym ar 1 Ebrill 2013³ ac mae'n galluogi sefydlu neu barhau darpariaeth brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd.

Rhaid i frechwastau a ddarperir gan awdurdodau lleol:

- gael eu darparu yn ddi-dâl
- bod ar gael ar safle'r ysgol
- bod ar gael cyn bo'r diwrnod ysgol yn dechrau⁴.

Mae gan awdurdodau lleol hyblygrwydd i benderfynu ar ffurf cynnwys y brecwast, ar yr amod y cydymffurfir â Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013⁵ (y 'Rheoliadau Bwyta'n Iach') sy'n rheoleiddio bwyd a diod a ddarperir mewn ysgolion a gynhelir.

A oes rhaid i bob ysgol gynradd a reolir weithredu gwasanaeth brecwast?

Nid oes gofyniad cyfreithiol bod corff llywodraethu yn gweithredu gwasanaeth brecwast am ddim yn ei ysgol. Pe bai corff llywodraethu yn penderfynu gweithredu gwasanaeth brecwast y codid tâl amdano ac yn darparu'r brecwastau ei hunan, byddai hawl ganddo i godi tâl gan ddysgwyr am y brecwastau a ddarperid. Fodd bynnag, ni châr'r tâl a godid fod yn fwy na'r gost o ddarparu'r brecwast.

Mae'r sefyllfa'n wahanol pan fo gorff llywodraethu yn penderfynu gweithredu gwasanaeth brecwast am ddim ac wedi gofyn i'r awdurdod lleol ddarparu brecwastau am ddim i ddysgwyr yn yr ysgol. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd dyletswydd ar yr awdurdod lleoli ddarparu'r brecwastau am ddim oni fydd yr awdurdod lleol o'r farn y byddai'n afresymol gwneud hynny (gweler 'Beth yw ystyr darpariaeth 'afresymol' o frechwastau am ddim mewn ysgolion cynradd?' ar dudalen 5).

³ Ar yr un pryd, trosglwyddwyd y cyllid grant penodol ar gyfer darparu brecwast am ddim i Grant Cynnal Refeniw yr awdurdod lleol, fel rhan o'r Setliad Llywodraeth Leol.

⁴ Sylwer: gwneir eithriad yn achos ysgol arbennig gymunedol, lle y caniateir rhoi brecwastau ar gael naill ai cyn neu ar ddechrau pob diwrnod ysgol.

⁵ Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013 www.legislation.gov.uk/wsi/2013/1984/contents/made

Pa bryd na fydd y ddyletswydd yn gymwys?

Ni fydd y ddyletswydd sydd ar yr awdurdod lleol i ddarparu brecwast am ddim yn gymwys yn y tair sefyllfa ganlynol.

- O Ebrill 2013 ymlaen, pan na fydd cais wedi ei wneud gan y corff llywodraethu i'r awdurdod lleol i sefydlu a darparu gwasanaeth brecwast am ddim.
- Pan fo'r ysgol, mewn ysgrifen, wedi gofyn i'r awdurdod lleol roi'r gorau i ddarparu gwasanaeth brecwast am ddim sy'n bodoli eisoes.
- Pan fo'r awdurdod lleol wedi penderfynu y byddai'n afresymol darparu, neu barhau i ddarparu, brecwastau ac wedi hysbysu'r corff llywodraethu mewn ysgrifen na fydd yr awdurdod, o ganlyniad i'r penderfyniad hwnnw, yn bwriadu darparu brecwastau; neu, os darperir brecwastau ar y pryd, y bydd yr awdurdod yn rhoi'r gorau i ddarparu brecwastau.

Hawl dysgwr i gael brecwast am ddim

Mae hawl dysgwr i gael brecwast am ddim yn ddibynnol ar y ddyletswydd sydd ar awdurdod o ganlyniad i Ddeddf 2013 Act, ac ar wneud cais am frechwast am ddim gan, neu ar ran, y dysgwr. Felly, pan fo dyletswydd yn bodoli, a chais wedi ei wneud i'r awdurdod lleol gan neu ar ran dysgwr, bydd hawl gan y dysgwr i gael brecwastau am ddim. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol, nac i gyrff llywodraethu, i osod criteria ar gyfer penderfynu, a hwyrach gyfyngu ar hawl dysgwr i gael brecwast am ddim.

Beth pe bai ymddygiad dysgwr yn annerbyniol?

Nid yw'r ffaith bod ymddygiad dysgwr yn annerbyniol yn golygu ei fod yn colli ei hawl i gael brecwast am ddim yn yr ysgol, oni fydd y dysgwr hwnnw wedi ei wahardd o'r ysgol. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r ysgol ystyried pa un yw'r ffordd orau i ddarparu'r brecwast am ddim i'r dysgwr os ydyw'n parhau i ddymuno cael brecwast.

A oes rhaid i gorff llywodraethu wneud cais ysgrifenedig am i frechwastau gael eu darparu os oedd yr awdurdod lleol yn darparu brecwastau yn yr ysgol ar 1 Ebrill 2013?

Nid oes rhaid i gorff llywodraethu wneud cais ysgrifenedig am i frechwastau gael eu darparu os oedd yr awdurdod lleol eisoes yn darparu brecwastau yn yr ysgol ar 1 Ebrill 2013. Y rheswm am hyn yw fod Deddf 2013 Act yn trin sefyllfa o'r fath fel pe bai cais ysgrifenedig am ddarparu brecwastau eisoes wedi ei wneud i'r awdurdod; y cyfnod o 90 diwrnod eisoes wedi dod i ben; a chais am frechwast eisoes wedi ei wneud ar gyfer pob dysgwr yn yr ysgol.

Beth yw ystyr 'ddarpariaeth afresymol' o frechwast am ddim mewn ysgol gynradd?

O dan Ddeddf 2013, nid yw'r ddyletswydd i ddarparu brechwast am ddim yn gymwys pan fo'r:

- corff llywodraethu wedi gofyn i'r awdurdod lleol, mewn ysgrifen, roi'r gorau i ddarparu brechwastau
- awdurdod lleol wedi penderfynu y byddai'n afresymol darparu brechwastau ac wedi hysbysu'r corff llywodraethu mewn ysgrifen o fwriad yr awdurdod i roi'r gorau i'w darparu.

Nid yw Deddf 2013 yn datgan beth fyddai'n gyfystyr â bod yn 'afresymol'. Mae hyn yn caniatáu hyblygrwydd i ymateb i wahanol gasgliadau o amgylchiadau; ac felly mae'n bosibl, er enghraifft, na fyddai'r hyn sy'n afresymol mewn un cyfuniad o amgylchiadau yn afresymol mewn un arall. Er nad oes modd pennu beth fydd, neu na fydd, yn afresymol mewn unrhyw sefyllfa benodol, dylai awdurdodau ystyried amryw o ffactorau, gan gynnwys:

- y galw am ddarpariaeth o frechwastau am ddim yn yr ysgol gynhelir
- argaeledd/addasrwydd man ymgynnull lle y gellid darparu brechwastau am ddim
- argaeledd/addasrwydd cyfleusterau o fewn yr ysgol a gynhelir lle y gellid paratoi'r ddarpariaeth.
- argaeledd/addasrwydd staff i oruchwylio'r ddarpariaeth o frechwastau.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol.

Pwy fydd yn darparu'r brechwast am ddim?

Er mai cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw darparu a threfnu'r ddarpariaeth o frechwast am ddim, disgwylir iddynt gysylltu â chorff lywodraethu a phennaeth yr ysgol i drafod trefniadau'r awdurdod neu unrhyw newid yn y trefniadau presennol.

Y penaethiaid sy'n gyfrifol am y drefn fewnol yn yr ysgolion ac am weinyddu a rheoli eu hysgol o ddydd i ddydd⁶, ac y mae hynny'n wir am y sesiwn brechwast. Nid yw hynny'n golygu bod rhaid i'r pennaeth fod yn bresennol ar safle'r ysgol yn ystod y sesiwn brechwast.

⁶ Gweler rheoliad 6(1) o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau 2002).

Sefydlu darpariaeth brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd

Dylai corff llywodraethu sy'n ystyried cyflwyno darpariaeth brecwast am ddim yn ei ysgol ymgynghori yn gyntaf â'i awdurdod lleol (sef, fel arfer, yr adran arlwygo). Yr awdurdod lleol fydd yn gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ysgolion yn ei ardal, o ran darparu cyngor ac arweiniad ar ddarparu brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd.

Mae yna, fodd bynnag, ystod o faterion y dylai ysgolion ac awdurdodau lleol eu hystyried cyn penderfynu gwneud cais am, neu ddarparu, darpariaeth o frecwast am ddim. Mae'r materion hyn yn cynnwys y canlynol.

Lefel y galw

Dylai ysgolion gysylltu â rheini/gofalwyr y plant er mwyn canfod maint y galw tebygol am ddarpariaeth o frecwast. Atodir enghraifft o lythyr y gallai ysgol ei ddefnyddio yn **Atodiad A (tudalen 19)**.

Arlwygo

Ai'r awdurdod lleol a fydd yn arlwygo'r brecwast am ddim, ynteu'r ysgol, yn unol â threfniadau a ddirprwywyd gan yr awdurdod?

Cyfleusterau addas

Mae Deddf 2013 yn pennu bod rhaid i frecwastau a ddarperir gan yr awdurdod lleol fod ar gael ar safle'r ysgol, ac felly dylid ystyried y canlynol.

- A oes ystafell hygyrch yn yr ysgol lle y gellir cynnal y sesiwn brecwast am ddim? A fydd yr ystafell ar gael am y cyfnod a fydd yn ofynnol?
- A yw'r ystafell yn addas i darparu ar gyfer pob dysgwr posibl sy'n dymuno cymryd brecwast am ddim? Os nad yw, pa ystafelloedd eraill y gellid eu defnyddio? Dylid ystyried a oes angen gwneud unrhyw addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, e.e. a yw'r ystafell yn addas i'w defnyddio gan rywun mewn cadair olwyn?
- A oes cyfleusterau addas yn yr ysgol i gyflenwi'r sesiwn brecwast am ddim, e.e. cyfarpar coginio/gweini?

Staffio

A fydd yr awdurdod lleol ei hunan ynteu'r ysgol, o dan drefniant dirprwygyda'r awdurdod, yn trefnu i staffio'r sesiwn brecwast am ddim?

Pwy fydd yn staffio'r sesiwn – a fydd arnoch angen staff ychwanegol ynteu a fyddwch yn dewis ad-drefnu neu ychwanegu at ddyletswyddau staff presennol

yr ysgol? Pa lefel o staffio a fydd yn ofynnol yn ystod y sesiwn brecwast, h.y. pa gymhareb staff: dysgwyr?

Dylid ystyried a oes angen gwneud addasiadau rhesymol er budd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol; e.e. a fydd angen dwysach goruchwyliaeth neu oruchwyliaeth un i un ar gyfer unrhyw ddysgwyr o'r fath?

Bydd rhaid i bob oedolyn sy'n ymwneud â'r sesiwn brecwast am ddim gael Tystysgrif Datgeliad Manylach a'u gwirio i ganfod a ydynt wedi eu cynnwys ar restr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o unigolion nad ydynt yn addas i weithio gyda phlant⁷.

Wrth gyflogi staff, mae nifer o faterion cyflogaeth sydd i'w hystyried gan gynnwys:

- contractau cyflogaeth
- yswiriant
- cyflogau a threth
- yr isafswm cyflog cenedlaethol
- tâl salwch statudol
- hawliau mamolaeth
- deddfwriaeth cydraddoldeb
- iechyd a diogelwch.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol.

Hyfforddiant

Mae'n bosibl y bydd angen hyfforddi'r staff brecwast am ddim er mwyn sicrhau y cyflëir negeseuon cyson mewn perthynas ag iechyd ac arferion addysgol. Dylai awdurdodau lleol/ysgolion ystyried darparu hyfforddiant priodol mewn materion megis cymorth cyntaf, hylendid bwyd, diogelwch bwyd, codi a chario, ac ati. Os bydd angen hyfforddi, dylid gwneud hynny cyn cychwyn y gyflogaeth.

Amseriad y sesiwn brecwast am ddim

Mae Deddf 2013 yn pennu bod rhaid i'r brecwast fod ar gael cyn dechrau'r diwrnod ysgol, ac eithrio yn achos ysgol arbennig gymunedol, lle y ceir darparu brecwast, pan fo angen, cyn neu ar ddechrau'r diwrnod ysgol.

Fel rheol dylid cyflenwi'r brecwast o fewn cyfnod byr (e.e. 30 munud) cyn dechrau'r diwrnod ysgol, gan ganiatáu digon o amser i'r plant sy'n bresennol ddewis eu brecwast, ei fwyta heb ruthro cyn dechrau gweithgareddau arferol yr ysgol.

⁷ Mae gwybodaeth bellach ar gael yn www.homeoffice.gov.uk/publications/agencies-public-bodies/dbs/corporate-publications/disclosure-and-barring-changes/leaflet-england-wales?view=Binary

Ar yr amod na chaiff y cyfnod a dreulir yn gweithredu sesiynau brecwast am ddim ei estyn i'r fath raddau fel y byddai, mewn gwirionedd, yn gyfnod o ofal plant, ni fydd yn ofynnol cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau cymdeithasol Cymru (AGGCC). Hwyrach y byddai modd cynnal clwb gofal plant gyda chymhareb staffio isel, a fyddai'n seiliedig ar chwarae ac yn codi tâl, cyn y sesiwn brecwast am ddim: os felly, mae'n bosibl y byddai'n ofynnol cofrestru gydag AGGCC pe byddid yn darparu mwy na dwy awr y dydd o ofal ar y cyd â chlwb ar ôl ysgol gyda'r un rheolwyr. Mewn sesiynau eraill o'r fath, pa un a godir tâl ai peidio, rhaid gwneud yn eglur **nad** sesiwn brecwast am ddim ydynt, a dylid osgoi defnyddio unrhyw derminoleg megis 'clwb/sesiwn brecwast' rhag creu dryswch rhwng yr hyn a gynigir a darpariaeth o frecwast am ddim.

Asesu risg

Er mwyn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999⁸ (y 'Rheoliadau Iechyd a Diogelwch'), rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu gynnal asesiad risg ar gyfer gweithredu'r sesiwn brecwast am ddim a chofnodi'r asesiad mewn ysgrifen, er mwyn nodi'r risgiau i iechyd a diogelwch. Rhaid gwerthuso'n briodol unrhyw risgiau arwyddocaol a ganfyddir, a phenderfynu sut i'w rheoli a'u cyfyngu i lefelau sy'n dderbyniol. Dylai'r broses o asesu risg fod yn un ymarferol, sy'n cymryd i ystyriaeth safbwyntiau'r cyflogeion cysylltiedig (a'u cynrychiolwyr diogelwch), sydd ag adnabyddiaeth feunyddiol o'r ffordd y mae'r ddarpariaeth brecwast am ddim yn gweithredu. I gynorthwyo awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i gydymffurfio â'r gofyniad cyfreithiol hwn, mae templed asesu risg generig ar gael yn **Atodiad B (gweler tudalen 21)**. Dylid ychwanegu at y templed hwnnw a'i addasu fel y bo angen. Anogir awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i adolygu eu hasesiadau risg yn flynyddol.

Gofynion dietegol

Mae'n bwysig bod rhieni/gofalwyr yn darparu gwybodaeth am unrhyw alergeddau neu ofynion dietegol arbennig sydd gan eu plentyn. Dylid casglu gwybodaeth o'r fath cyn bo'r plentyn yn dod i sesiwn brecwast am y tro cyntaf; a rhaid dwyn yr wybodaeth i sylw'r holl staff/gwirfoddolwyr sy'n goruchwylio'r sesiynau brecwast.

Cyffredinol

Mae ffactorau eraill i'w hystyried gan gynnwys:

- yswiriant – dylai ysgolion ac awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt ddiogelwch yswiriant digonol, sy'n cynnwys y sesiwn brecwast am ddim

⁸ Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
www.legislation.gov.uk/ukxi/1999/3242/contents/made

- gwastraff bwyd – dylai ysgolion ystyried ffyrdd o osgoi gwastraff bwyd, cadw gwastraff bwyd ar wahân i ffrydiau gwastraff eraill, a dargyfeirio gwastraff byw o ganolfannau tirlenwi i gyfleusterau treulio anaerobig⁹
- ailgylchu – dylai ysgolion wahanu deunyddiau ailgylchadwy yn eu ffynhonnell a darparu gasgliadau ar wahân o'r deunyddiau eildro allweddol (gan gynnwys papur, cardbord, metel, gwydr a phlastig) pan fo'n briodol.

Dylai ysgolion gysylltu â Swyddog Ailgylchu eu hawdurdod lleol i gael cyngor ynghylch atal gwastraff ac ailgylchu.

Rhaid i awdurdodau lleol gyrraedd y targedau a bennir ym Mesur Gwastraff (Cymru) 2010¹⁰.

⁹ I gael rhagor o wybodaeth, gweler www.wrap.org.uk/content/taking-action-waste-information-sheets, ac www.eco-schools.org/menu/process/seven-steps

¹⁰ Mesur Gwastraff (Wales) 2010
www.legislation.gov.uk/mwa/2010/8/crossheading/waste-targets

Eitemau bwyd mewn brechwastau am ddim

Fel y nodwyd eisoes, mae hyblygrwydd gan awdurdodau lleol i benderfynu ar ffurf cynnwys y brechwast, ar yr amod y cydymffurfir â'r Rheoliadau Bwyta'n Iach.

Mae'r Rheoliadau Bwyta'n Iach yn gymwys i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu sy'n darparu bwyd a diod i ddysgwyr ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir), pa un a yw'r dysgwyr ar safle'r ysgol ai peidio, ac i bersonau eraill ar safle'r ysgol. Nod y Rheoliadau yw sefydlu dull 'ysgol gyfan' o ymdrin â bwyta'n iach; annog plant i ddatblygu agwedd iach at fwyd a diod, a datblygu arferion bwyta da yn gynnar yn eu hoes. Yn ymarferol, mae'r Rheoliadau Bwyta'n Iach yn pennu'r mathau o fwyd a diod y caniateir, ac na chaniateir, eu darparu mewn ysgolion.

Ymdrinnir â brechwast mewn ysgolion yn rheoliad 4 o'r Rheoliadau Bwyta'n Iach ac yn Atodlen 1 i'r rheoliadau hynny. Mae Atodlen 1 (fel y dynodir isod gydag awgrymiadau) yn rhagnodi pedwar categori o fwydydd a ganiateir. Bwydydd o'r categorïau hyn yn unig gaiff fod ar gael yn ystod brechwast ar bob diwrnod ysgol. Mae'r tabl isod yn nodi'r categorïau hynny o fwydydd a ganiateir ynghyd ag enghreifftiau o'r eitemau safonol y gellir eu darparu.

| Categoriâu o fwydydd | Eitemau safonol a awgrymir |
|--|--|
| Diodydd seiliedig ar laeth neu iogyrtiau | Llaeth hanner-sgim neu sgim (caniateir llaeth cyflawn mewn meithrinfa) |
| Grawnfwydydd – heb eu caenu na'u cyflasau, naill ai ar eu pen eu hunain neu ar y cyd a siwgr neu bowdr siocled neu goco* | Grawnfwyd gwenith-cyflawn Creision yd Grawnfwydydd seiliedig ar reis Grawnfwydydd siwrwd gwenith cyflawn Sgwariau gwenith brag Creision bran Uwd *Rhag ychwanegu siwgr, dylid annog plant i ddefnyddio ffrwythau ffres a ffrwythau sych yn felysyddion. |
| Ffrwythau a llysiau* | Detholiad o ffrwythau ffres neu ffrwythau wedi'u torri'n fân i'w hychwanegu at y grawnfwyd Ffrwythau tun mewn sudd ffrwythau naturiol Suddion ffrwythau/llysiau heb eu melysu Ffa pob mewn saws tomato Tomatos tun mewn sudd *Rhaid peidio â ffrio llysiau. |
| Bara a haenau | Gellir cynnig amrywiaeth o fara Gall yr haenau gynnwys: Margarîn poly-annirlawn/mono-annirlawn, jam, marmalêd, mêl (wedi ei daenu'n denau) |

Rhaid cynnig i bob plentyn sy'n dod i'r sesiwn brecwast am ddim ddewis un eitem o bob un o'r pedwar categori o fwyd. Dylai'r ysgolion ddarparu dognau o faint sy'n adlewyrchu oedran y dysgwr. Er enghraifft, bydd angen dogn llai ar ddysgwr yn y dosbarth derbyn a Blwyddyn 1, o gymharu â dysgwr ym Mlwyddyn 6.

Dylid monitro'r gwastraff ac addasu'r meintiau o fwyd a archebir yn unol â hynny. Rhaid rhoi dŵr yfed ar gael i'r plant, yn ddi-dâl yn ystod y sesiwn brecwast¹¹.

¹¹ Gweler adran 5 o Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009.

Cyrff llywodraethu sy'n ystyried tynnu'n ôl ddarpariaeth o frechwastau am ddim

Dylai cyrff llywodraethu drafod unrhyw bryderon ynglŷn â gweithredu'r ddarpariaeth o frechwast am ddim gyda'r awdurdod lleol. Os yw corff llywodraethu'n parhau'n analluog i ddatrys ei anawsterau er gwaethaf mewnbwn yr awdurdod lleol ac o ganlyniad yn penderfynu y dylai'r ddarpariaeth o frechwastau am ddim ddod i ben, rhaid i'r corff llywodraethu ysgrifennu at yr awdurdod lleol gan ofyn iddo roi'r gorau i ddarparu brechwastau yn yr ysgol. Bydd yr hysbysiad hwnnw'n terfynu dyletswydd yr awdurdod lleol i ddarparu brechwast am ddim yn yr ysgol. Mae enghraifft o lythyr, y gall corff llywodraethu ei ddefnyddio i ofyn i'r awdurdod roi'r gorau i ddarparu brechwastau am ddim wedi ei gynnwys isod yn **Atodiad C (gweler tudalen 34)**.

Ni ddylai derbyn llythyr tynnu'n ôl fod yn ddigwyddiad annisgwyl i'r awdurdod lleol. Pan fo corff llywodraethu'n wynebu anawsterau, dylai hysbysu'r awdurdod lleol cyn gynted ag y bo modd, i alluogi'r awdurdod i ystyried y ffordd orau i ddatrys y sefyllfa.

Cyn ysgrifennu at yr awdurdod lleol, argymhellir y dylai'r corff llywodraethu hysbysu'r rhieni/gofalwyr o'i fwriad i roi'r gorau i ddarparu sesiynau brechwast am ddim yn yr ysgol, gan esbonio'r rheswm neu'r rhesymau am ei benderfyniad. Trwy wneud hynny, gellid darbwyllo rhieni/gofalwyr i beidio ag arfer yr hawl sydd ganddynt, os ceir cworwm digonol, i ofyn am gyfarfod gyda'r corff llywodraethu i drafod y mater¹².

¹² Mae adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn rhoi hawl i rieni ofyn am gyfarfod gyda'r corff llywodraethu i drafod materion sy'n peri pryder iddynt.

Penderfyniad awdurdod lleol i beidio â darparu, neu roi'r gorau i ddarparu, brecwastau am ddim

Ni does rhaid i awdurdod lleol ddarparu, neu barhau i ddarparu, brecwastau am ddim mewn ysgol os yw o'r farn y byddai gwneud hynny yn afresymol. Er nad yw Deddf 2013 yn diffinio'r hyn sy'n afresymol, mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio at ffactorau a fydd o gymorth i awdurdodau wrth benderfynu pa amgylchiadau y gellir eu hystyried yn afresymol (gweler 'Beth yw ystyr darpariaeth 'afresymol' o frechwastau am ddim mewn ysgolion cynradd?' ar dudalen 5).

Pan fo ysgol yn gofyn i'r awdurdod lleol roi'r gorau i ddarparu brecwastau ysgol am ddim, bydd dyletswydd yr awdurdod lleoli ddarparu brecwastau ysgol am ddim yn dod i ben. Os bydd yr ysgol, rywdro yn y dyfodol, yn penderfynu ei bod yn dymuno ailgychwyn y ddarpariaeth o frechwastau ysgol am ddim gan yr awdurdod lleol, bydd rhaid iddi wneud cais ysgrifenedig i'r awdurdod lleol, a chaiff y cais hwnnw ei drin fel cais newydd.

Rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r corff llywodraethu mewn ysgrifen ynghylch unrhyw benderfyniad i beidio â darparu, neu beidio â pharhau i ddarparu brecwast am ddim yn yr ysgol. Dylai'r llythyr hysbysu nodi'r rheswm neu'r rhesymau dros wneud y penderfyniad. Cynhwysir enghraifft o lythyr y gall awdurdod lleol ei ddefnyddio at y diben hwnnw yn **Atodiad D (gweler tudalen 35)**.

Materion deintyddol

'Cynllun Gwên' yw rhaglen iechyd geneuol Llywodraeth Cymru, sy'n amcanu i wella iechyd deintyddol plant yng Nghymru. Rhaglen ataliol ydyw, sy'n hyrwyddo'r arfer o frwsio dannedd mewn ysgolion a meithrinfeydd, er mwyn sefydlu arferion da yn gynnar yn oes y plant. Dylai ysgolion sy'n awyddus i sefydlu'r arfer o frwsio dannedd ar ôl brecwast ymweld â gwefan 'Cynllun Gwên' i gael rhagor o wybodaeth.

www.designedtosmile.co.uk/toothbrushing_new2.html

Hyrwyddo sesiynau brechwast iach am ddim

Mae Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009¹³ ('y Mesur Bwyta'n Iach') yn gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach gan ddysgwyr mewn ysgolion a gynhelir. Gall awdurdodau lleol ac ysgolion ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn, er enghraifft, trwy gynnal sesiynau brechwast iach 'thematig' sy'n annog ac yn cefnogi arbrofi gyda gwahanol fwydydd (e.e. ffrwythau/bwydydd o wahanol wledydd) a/neu gyhoeddi cylchlythyr rheolaidd, i roi gwybod i rieni/gofalwyr am y sesiynau brechwast a'u gwahodd i ddod gyda'u plant i un o'r sesiynau brechwast iach am ddim.

¹³ Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009
www.legislation.gov.uk/mwa/2009/3/contents

Monitro

Mae'r Mesur Bwyta'n Iach yn gwneud yn ofynnol bod cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn cynnwys gwybodaeth yn eu hadroddiad blynyddol (a roddir ar gael i rieni/gofalwyr) am y camau a gymerir i hyrwyddo bwyta ac yfed iach gan ddysgwyr yn eu hysgolion. Gall yr wybodaeth hon fod yn rhan o'r mewnbwn i'r arolygiad o'r ysgol gan y Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Darparu data

Dylai awdurdodau lleol barhau i hysbysu Llywodraeth Cymru ynghylch unrhyw sesiynau brechwast a sefydlir o'r newydd ac unrhyw sesiynau sy'n cau. Dylai awdurdodau lleol barhau hefyd i annog ysgolion cynradd yn eu hardal, sy'n gweithredu sesiynau brechwast am ddim, i gwblhau'r datganiad data CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion). Bydd yr wybodaeth a gesglir yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i lunio a goleuo strategaethau eraill a dargedir at wella bwyd a maetheg mewn ysgolion.

Atodiad A: Llythyr templed enghreifftiol y gall ysgol ei ddefnyddio i ganfod maint y diddordeb mewn sesiynau brechwast am ddim

GWYBODAETH BWYSIG: DARLLENWCH OS GWELWCH YN DDA

Annwyl Riant/Gofalwr

BRECWASTAU AM DDIM MEWN YSGOLION CYNRADD

Rydym yn ystyried a ddylid cyflwyno brechwastau am ddim yn ysgol Er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus mae arnom angen cael syniad o'r nifer sydd â diddordeb. Mae hyn yn rhan hanfodol o'r broses gynllunio.

Beth sydd angen i chi ei wneud?

Os hoffech i'ch plentyn/plant chi ddod i'r sesiynau brechwast am ddim pan ddechreuant yn yr ysgol, neu pan dychwelant i'r ysgol (yn ystod Tymor) rhaid ichi lenwi'r ffurflen a atodir a'i dychwelyd i'r ysgol erbyn (dyddiad). Os na fyddwn wedi cael ateb erbyn y dyddiad hwn, byddwn yn cymryd yn ganiataol nad ydych yn dymuno i'ch plentyn/plant ddod i'r sesiynau brechwast am ddim.

Byddwn yn anfon rhagor o wybodaeth atoch, unwaith y bydd gennym syniad o'r nifer sy'n debygol o fanteisio ar y sesiynau brechwast am ddim.

Yr eiddoch yn gywir

BRECWAST AM DDIM MEWN YSGOL GYNRADD

Llenwch a dychwelwch y ffurflen hon i'r ysgol erbyn

| | | | | | |
|--|-----|-----|-----|------------------|---------|
| Enw'r plentyn: | | | | Dosbarth: | |
| Presenoldeb | | | | | |
| Nodwch ar ba ddiwrnodau y bydd eich plentyn yn dod i'r sesiynau brechwast am ddim | | | | | |
| Llun | Maw | Mer | Iau | Gwe | |
| Gofynion dietegol arbennig | | | | | |
| Oes gan eich plentyn unrhyw alergedd/anallu i ddygymod/gofynion neu ddefodau crefyddol penodol ynglŷn â bwyd? (Ticiwch os gwelwch yn dda) | | | | Oes | Nac oes |
| Os oes, rhowch fanylion: | | | | | |
| Gwybodaeth arall | | | | | |
| Nodwch unrhyw wybodaeth arall y credwch sy'n berthnasol i bresenoldeb eich plentyn yn y sesiynau brechwast am ddim | | | | | |
| Manylion personau cyswllt mewn argyfwng | | | | | |
| Enw: | | | | Rhif ffôn: | |
| Ei berthynas â'r plentyn: | | | | | |
| Enw: | | | | Rhif ffôn: | |
| Ei berthynas â'r plentyn: | | | | | |
| Rwyf yn cadarnhau yr hoffwn i'm plentyn/plant ddod i'r sesiynau brechwast am ddim pan fydd(ant) yn (dechrau yn)/(dychwelyd i) yr ysgol. | | | | | |
| Llofnod y rhiant/gofalwr: | | | | Dyddiad: | |

Atodiad B: Tabled asesiad risg iechyd a diogelwch

ASESIAD RISG IECHYD A DIOGELWCH


Lleoliad y gweithle
YSGOL

Tasg/Gweithgaredd
GWEITHREDU BRECWASTAU AM DDIM

| PERYGL | PWY ELLID EI NIWEIDIO | GRADDIO'R RISG | A YW'R RISG WEDI EI REOLI'N DDIGONOL? | PA WEITHREDU PELLACH SY'N OFYNNOL I REOLI'R RISG? | Y RISG WEDDILLIOL |
|---|--|---|---|---|--|
| <p>Chwiliwch yn unig am beryglon y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt achosi niwed sylweddol o dan yr amoda yn eich gweithle. Defnyddiwch yr enghreifftiau canlynol yn ganllaw.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Peryglon llithro/baglu. • Sŵn. • Trydan. • Nwyon. • Tân. • Cerbydau. • Llŵch. • Trais. • Cemegion. • Rhannau symudol peirinnau. • Codi a chario. • Gweithio mewn man uchel. • Taflu deunyddiau. • Goleuo gwael. • Systemau pwysedd. • Tymheredd isel. | <p>Nid oes raid enwi unigolion – meddylier yn unig am grwpiau o bobl sy'n gwneud yr un math o waith, neu y gellid effeithio arnynt, er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> • staff swyddfa • gweithredwyr • gweithwyr cynnal a chadw • glanhawyr • contractwyr • aelodau'r cyhoedd • pobl sy'n rhannu eich gweithle. <p>Rhowch sylw penodol i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • personau anabl • personau ifanc • staff dibrofiad • ymwelwyr • gweithwyr ar eu pen eu hunain • menywod beichiog neu'n bwydo o'r fron. | <p>Blaenoriaethwch y risg fel Uchel, Canolig neu Isel</p> | <p>A ydych eisoes yn gweithredu rhagofalon rhag risgiau o'r peryglon a restrwyd gennych. Er enghraifft, a ydych wedi darparu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwybodaeth ddigonol, cyfarwyddyd neu hyfforddiant? • systemau neu weithdrefnau diogel digonol? <p>A yw'r rhagofalon yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bodloni'r safonau a bennir gan ofyniad cyfreithiol? • cydymffurfio â safon gydnabyddedig? • cynrychioli arfer da? • lleihau risg cyn belled ag y gellir yn ymarferol? <p>Os felly, mae'r risgiau wedi eu rheoli'n ddigonol, ond rhaid ichi ddynodi pa ragofalon a weithredir gennych. Gallwch gyfeirio at weithdrefnau, llawlyfrau ac ati wrth roi'r wybodaeth hon.</p> | <p>Beth gallwch chi, yn rhesymol, ei wneud ymhellach ynglŷn â'r risgiau y canfuwyd nad ydynt yn cael eu rheoli'n ddigonol?</p> <p>Dylid rhoi blaenoriaeth i'r risgiau hynny sy'n effeithio ar niferoedd mawr o bobl a/neu a allai achosi niwed difrifol. Ceisiwch ddilyn yr egwyddorion isod wrth gymryd camau pellach, yn y drefn ganlynol os oes modd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diddymu'r risg yn gyfan gwbl. • Rhoi cynnig ar opsiwn llai peryglus. • Rhwystro mynediad at y perygl (e.e. trwy osod gard, ac ati). • Trefnu'r gwaith er mwyn dod i lai o gyffyrddiad â'r perygl. • Rhoi offer diogelu personol i unigolion. | <p>Blaenoriaethwch y risg yn Uchel, Canolig neu'n Isel</p> |

| Rhestrwch y peryglon yma | Rhestrwch grwpiau o bobl sydd, yn arbennig, o dan risg oherwydd y peryglon sylweddol a nodwyd gennych: | Risg | Rhestrwch y rheolaethau presennol yma – neu nodwch lle mae'r wybodaeth i'w chael: | Disgrifiwch y gweithredu sydd ei angen er mwyn gwella pethau, os yw'n rhesymol ymarferol gwneud rhagor i reoli'r risgiau. <u>Rhaid pennu hefyd y dyddiad targed ar gyfer gweithredu, a'r person sydd i weithredu</u> | Y risg weddilliol |
|---|---|------|---|---|-------------------|
| <p>Diogelwch adeiladau'r ysgol yn wael</p> <p>Trais yn y gwaith</p> | <p>Staff brechwast am ddim</p> <p>Dysgwyr brechwast am ddim (gan gynnwys anghenion arbennig)</p> <p>Rhieni/gofalwyr dysgwyr (sy'n dod i'r sesiynau brechwast)</p> | C | <p>Pan fo'n briodol, dylid trefnu mynediad i'r sesiynau brechwast am ddim trwy brif fynedfa'r ysgol, gan y darperir system reoli mynediad er diogelwch yno.</p> <p>Pan nad yw hynny'n briodol (e.e. yn achos sesiynau brechwast am ddim a weithredir ymhell o'r fynedfa neu mewn adeilad ar wahân i brif adeilad yr ysgol) dylid sefydlu pwynt mynediad addas, ynghyd â system reoli mynediad addas.</p> | <p>Pan weithredir y sesiwn brechwast am ddim ymhell o'r pwynt mynediad (mewn ystafelloedd ym mhen draw'r coridor neu ar y llawr cyntaf) dylid ystyried gosod system diogelwch mynediad weledol a llais, fel y gall y staff sy'n rheoli mynediad wybod pwy sydd wrth y drysau cyn eu hagor o bell.</p> | I |
| | | | <p>Anogir y staff brechwast am ddim i herio unrhyw ymwelwyr a ganfyddir yn yr adeilad (ac eithrio rhieni/gofalwyr sy'n adnabyddus iddynt neu sy'n bresennol yng nghwmni eu plant).</p> <p>Darperir cyswllt/system gyfathrebu/lleinell deffon yn y man lle cynhelir y sesiwn brechwast am ddim, fel y gall y staff ffonio am gymorth pe bai angen. (Mae gan staff y sesiwn brechwast am ddim ffonau symudol eu hunain yn ogystal)</p> <p>Cedwir cofrestr o'r holl ddysgwyr sy'n bresennol.</p> | | |

| Rhestrwch y peryglon yma: | Rhestrwch grwpiau o bobl sydd, yn arbennig, o dan risg oherwydd y peryglon sylweddol a nodwyd gennych: | Risg | Rhestrwch y rheolaethau presennol yma – neu nodwch lle mae'r wybodaeth i'w chael: | Disgrifiwch y gweithredu sydd ei angen er mwyn gwella pethau, os yw'n rhesymol ymarferol gwneud rhagor i reoli'r risgiau. <u>Rhaid pennu hefyd y dyddiad targed ar gyfer gweithredu, a'r person sydd i weithredu</u> | Y risg weddilliol |
|---------------------------------|--|------|--|--|-------------------|
| Rheolaeth diogelwch tân yn wael | <p>Staff brecwast am ddim</p> <p>Dysgwyr brecwast am ddim (gan gynnwys anghenion arbennig)</p> <p>Rhieni/gofalwyr dysgwyr (sy'n dod i'r sesiynau brecwast)</p> | U | <p>Mae asesiadau risg tân presennol yr ysgol wedi eu hadolygu mewn cysylltiad â gweithredu'r sesiwn brecwast am ddim.</p> <p>Ni ddylid dal y drysau tân yn coridorau yn agored ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> - dros dro am gyfnodau byr iawn (e.e. yn ystod glanhau) neu - gyda dyfeisiau electronig/sonig sy'n gysylltiedig â'r system larymau tân, fel eu bod yn cau pan ysgogir y larwm system. <p>Arddangosir hysbysiadau gweithdrefn tân yr ysgol ym mhob pwynt galwad larwm tân, ac y mhob ystafell a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau sesiwn brecwast am ddim.</p> <p>Mae'r staff brecwast am ddim yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau ar gyfer gwacáu'r ysgol mewn argyfwng, ac wedi cael gwybodaeth â chyfarwyddyd ynglŷn â'r gweithdrefnau.</p> <p>Cynhelir ymarferiadau gwacáu mewn argyfwng bob tymor (sef, yn ddelfrydol, ar ddechrau pob tymor, er mwyn cynnwys unrhyw staff neu ddysgwyr newydd). Cofnodir pob ymarferiad yn llyfr log diogelwch tân yr ysgol.</p> <p>Defnyddir y gofrestr o'r dysgwyr sy'n bresennol ar gyfer y sesiwn brecwast am ddim at y diben o gyfrif pennau yn yr ymarferiad.</p> | Staff priodol i ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth tân. | I |

| Rhestrwch y peryglon yma: | Rhestrwch grwpiau o bobl sydd, yn arbennig, o dan risg oherwydd y peryglon sylweddol a nodwyd gennych: | Risg | Rhestrwch y rheolaethau presennol yma – neu nodwch lle mae'r wybodaeth i'w chael: | Disgrifiwch y gweithredu sydd ei angen er mwyn gwella pethau, os yw'n rhesymol ymarferol gwneud rhagor i reoli'r risgiau <u>Rhaid pennu hefyd y dyddiad targed ar gyfer gweithredu, a'r person sydd i weithredu</u> | Y risg weddilliol |
|--|---|------|---|---|-------------------|
| Y ddarpariaeth Cymorth Cyntaf yn amhriodol | <p>Staff brechwast am ddim</p> <p>Dysgwyr brechwast am ddim (gan gynnwys anghenion arbennig)</p> <p>Rhieni/gofalwyr dysgwyr (sy'n dod i'r sesiynau brechwast)</p> | I | <p>Mae pob un o'r staff brechwast am ddim yn gwybod lle mae'r cyfarpar cymorth cyntaf.</p> <p>Mae arwyddion priodol wedi eu gosod i ddangos lle mae'r cyfarpar cymorth cyntaf.</p>  <p>Mae nifer digonol ac addas o'r staff brechwast am ddim wedi cael hyfforddiant priodol mewn cymhwyster cymorth cyntaf yn y gweithle (hyd at safon person penodedig/cymorth mewn argyfwng o leiaf).</p> <p>Mae llinell gyfathrebu allanol/ffôn yn y man lle cynhelir y sesiwn brechwast am ddim neu gerllaw, ac ar gael i gysylltu â'r gwasanaethau brys (h.y. ambiwlans) pe bai angen.</p> | Mae'r blwch cymorth cyntaf yn y sesiwn brechwast am ddim i'w gael ei gynnwys yn nhrefniadau presennol yr ysgol ar gyfer gwirio cynnwys ac ail-lenwi blychau cymorth cyntaf yn rheolaidd. | I |

| Rhestrwch y peryglon yma: | Rhestrwch grwpiau o bobl sydd, yn arbennig, o dan risg oherwydd y peryglon sylweddol a nodwyd gennych: | Risg | Rhestrwch y rheolaethau presennol yma – neu nodwch lle mae'r wybodaeth i'w chael: | Disgrifiwch y gweithredu sydd ei angen er mwyn gwella pethau, os yw'n rhesymol ymarferol gwneud rhagor i reoli'r risgiau <u>Rhaid pennu hefyd y dyddiad targed ar gyfer gweithredu, a'r person sydd i weithredu</u> | Y risg weddilliol |
|--|---|------|--|---|-------------------|
| Dewis ystafelloedd amhriodol ar gyfer gweithgareddau brechwast am ddim | <p>Staff brechwast am ddim</p> <p>Dysgwyr brechwast am ddim (gan gynnwys anghenion arbennig)</p> <p>Rhieni/gofalwyr dysgwyr (sy'n dod i'r sesiynau brechwast)</p> | I | Mae pob ystafell a ddefnyddir ar gyfer y gweithgareddau wedi eu hystyried yn rhesymol o ran ei maint, gosodiad y dodrefn, ac ati, ar gyfer y nifer mwyaf posibl o ddysgwyr a all fod yn bresennol. | | I |

| Rhestrwch y peryglon yma: | Rhestrwch grwpiau o bobl sydd, yn arbennig, o dan risg oherwydd y peryglon sylweddol a nodwyd gennych: | Risg | Rhestrwch y rheolaethau presennol yma – neu nodwch lle mae'r wybodaeth i'w chael: | Disgrifiwch y gweithredu sydd ei angen er mwyn gwella pethau, os yw'n rhesymol ymarferol gwneud rhagor i reoli'r risgiau. <u>Rhaid pennu hefyd y dyddiad targed ar gyfer gweithredu, a'r person sydd i weithredu</u> | Y risg weddilliol |
|--|---|------|--|--|-------------------|
| Defnyddio a dod i gyffyrddiad â sylweddau sy'n beryglus i iechyd | <p>Staff brechwast am ddim</p> <p>Dysgwyr brechwast am ddim (gan gynnwys anghenion arbennig)</p> <p>Rhieni/gofalwyr dysgwyr (sy'n dod i'r sesiynau brechwast)</p> | C | <p>Pan ddefnyddir peiriannau golchi llestri, rhoddir ystyriaeth i'r glanedydd a ddefnyddir a'r risg o niwed o ganlyniad i'w ddefnyddio, ei drin a'i storio. Mae taflen ddata'r gwneuthurwr ar gael ynglŷn â'r peryglon, ac asesiad risg COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd) wedi ei wneud ar gyfer pob cynnyrch.</p> <p>Darperir Cyfarpar Diogelu Personol (CDP) addas a digonol i'r staff, fel y rhagnodir yn yr asesiad risg COSHH ar gyfer pob cynnyrch.</p> <p>Caiff y staff brechwast am ddim eu gwneud yn ymwybodol o'r asesiadau risg COSHH a'r gofynion CDP. Bydd y ddogfennaeth wrth law yn hwylus rhag ofn y bydd angen cyfeirio ati ar frys oherwydd, e.e. dod i gyffyrddiad â sylwedd ar ddamwain, neu sylwedd yn tasgu i'r llygad.</p> <p>Mae'r holl gynhyrchion a ystyrir yn beryglus i iechyd yn cael eu storio'n ddiogel, ac nid ydynt o fewn cyrraedd i ddysgwyr nac i unrhyw bersonau eraill.</p> | Ystyried caffael llai o gynhyrchion glanedol peryglus ar gyfer y peiriant golchi llestri. | I |

| Rhestrwch y peryglon yma: | Rhestrwch grwpiau o bobl sydd, yn arbennig, o dan risg oherwydd y peryglon sylweddol a nodwyd gennych: | Risg | Rhestrwch y rheolaethau presennol yma – neu nodwch lle mae'r wybodaeth i'w chael: | Disgrifiwch y gweithredu sydd ei angen er mwyn gwella pethau, os yw'n rhesymol ymarferol gwneud rhagor i reoli'r risgiau. <u>Rhaid pennu hefyd y dyddiad targed ar gyfer gweithredu, a'r person sydd i weithredu</u> | Y risg weddilliol |
|--|---|------|---|--|-------------------|
| Defnyddio cyfarpar trydanol | <p>Staff brechwast am ddim</p> <p>Dysgwyr brechwast am ddim (gan gynnwys anghenion arbennig)</p> <p>Rhieni/gofalwyr dysgwyr (sy'n dod i'r sesiynau brechwast)</p> | C | <p>Mae gweithdrefnau wedi eu sefydlu yn yr ysgol (yn flynyddol ar hyn o bryd) ar gyfer profi a chynnal yr holl offer trydanol cludadwy yn gyfnodol (gan berson cymwys).</p> <p>Bydd unrhyw offer trydanol a brynir o'r newydd yn cael ei ychwanegu at restr offer yr ysgol, er mwyn sicrhau y caiff ei profi ar yr achlysur rheolaidd nesaf.</p> <p>Mae gweithdrefnau wedi eu sefydlu yn yr ysgol ar gyfer profi a chynnal yr holl osodiadau trydanol sefydlog fesul cyfnod o ddim mwy na pum mlynedd (gan berson cymwys).</p> <p>Ar ôl prynu nifer o eitemau trydanol cludadwy ychwanegol, ystyriwyd yr angen i ddarparu socedi trydan ychwanegol yn y man lle darperir brechwast am ddim, rhag gorlwytho'r socedi a oedd ar gael.</p> | <p>Mae'r staff brechwast am ddim yn cael eu hatgoffa'n gyson i beidio â dod ag eitemau trydanol o gartref i'w defnyddio yn yr ysgol.</p> <p>Cael gwared â'r addasyddion dwyffordd presennol (ar gyngor trydanwr cymwysedig, gan eu bod yn anaddas pan dynnir cerrynt/llwyth uchel) a gosod estyniadau pedwar soced yn eu lle gan sicrhau y'u gosodir ddiogel fel na all neb faglu ar draws y cebl.</p> | I |
| Defnyddio offer arall/arbenigol yr ysgol | <p>Staff brechwast am ddim</p> <p>Dysgwyr brechwast am ddim (gan gynnwys anghenion arbennig)</p> <p>Rhieni/gofalwyr dysgwyr (sy'n dod i'r sesiynau brechwast)</p> | C | <p>Pan ddefnyddir prif neuaddau ysgolion ar gyfer gweithgareddau dan do ar ôl bwyta'r bwyd, mae'r staff brechwast am ddim yn ymwybodol bod rhaid peidio â defnyddio offer megis bariau wal, trampetau, a chyfarpar metel sefydlog, ac eithrio trwy gytundeb penodol gyda rheolwyr yr ysgol, a hynny dan oruchwyliaeth person cymwys.</p> | | I |

| Rhestrwch y peryglon yma: | Rhestrwch grwpiau o bobl sydd, yn arbennig, o dan risg oherwydd y peryglon sylweddol a nodwyd gennych: | Risg | Rhestrwch y rheolaethau presennol yma – neu nodwch lle mae'r wybodaeth i'w chael: | Disgrifiwch y gweithredu sydd ei angen er mwyn gwella pethau, os yw'n rhesymol ymarferol gwneud rhagor i reoli'r risgiau. Rhaid pennu hefyd y dyddiad targed ar gyfer gweithredu, a'r person sydd i weithredu | Y risg weddilliol |
|---|--|------|---|---|-------------------|
| Defnyddio cegin yr ysgol (a'r cyfarpar) i baratoi bwyd | <p>Staff brecwast am ddim</p> <p>Dysgwyr brecwast am ddim (gan gynnwys anghenion arbennig)</p> <p>Rhieni/gofalwyr dysgwyr (sy'n dod i'r sesiynau brecwast)</p> | C | <p>Cysylltwyd â goruchwylydd arlwo'r ysgol a staff y gegin ynglŷn â bwriadau'r ysgol o ran defnyddio'r ystafell fwyta a chyfleusterau'r gegin.</p> <p>Rhaid dod i gytundeb penodol gyda Rheolwr Arlwo'r ALL os yw cegin yr ysgol i'w defnyddio yn annibynnol gan y staff brecwast am ddim.</p> <p>Hysbysir y staff brecwast am ddim nad oes hawl ganddynt i ddefnyddio'r cyfarpar cegin (h.y. cymysgwyr bwyd, offer ffrio dwfn, offer sleisio) ac mai offer brecwast am ddim (h.y. tostwyr) yn unig y caniateir iddynt eu defnyddio.</p> | | I |
| Dim darpariaeth ar gyfer goruchwylio rhwng diwedd y sesiwn brecwast am ddim a dechrau'r diwrnod ysgol | <p>Staff brecwast am ddim</p> <p>Dysgwyr brecwast am ddim (gan gynnwys anghenion arbennig)</p> <p>Rhieni/gofalwyr dysgwyr (sy'n dod i'r sesiynau brecwast)</p> | C | <p>Trwy dderbyn dysgwyr i'r sesiynau brecwast am ddim, mae'r ysgol yn ymgymryd â'r ddyletswydd sifil o fod <i>in loco parentis</i> (sef o ymddwyn fel rhiant rhesymol) a'r ddyletswydd o ofal mewn cyfraith gyffredin, yn ogystal â'r ddyletswydd gyfreithiol o sicrhau iechyd, diogelwch a lles personau ac eithrio cyflogeion (sef, yn yr achos hwn, y dysgwyr), i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol,. Oherwydd hyn, bydd angen darparu lefel briodol o oruchwyliaeth.</p> <p>Pan fo'r sesiynau brecwast am ddim yn dod i ben cyn dechrau'r diwrnod ysgol, rhaid i'r dysgwyr barhau i gael eu goruchwylio gan nifer priodol o staff hyd nes bo'r diwrnod ysgol arferol yn cychwyn.</p> | | I |

| Rhestrwch y peryglon yma: | Rhestrwch grwpiau o bobl sydd, yn arbennig, o dan risg oherwydd y peryglon sylweddol a nodwyd gennych: | Risg | Rhestrwch y rheolaethau presennol yma – neu nodwch lle mae'r wybodaeth i'w chael: | Disgrifiwch y gweithredu sydd ei angen er mwyn gwella pethau, os yw'n rhesymol ymarferol gwneud rhagor i reoli'r risgiau. Rhaid <u>pennu hefyd y dyddiad targed ar gyfer gweithredu, a'r person sydd i weithredu</u> | Y risg weddilliol |
|--|---|------|--|---|-------------------|
| <p>Materion/amodau anniogel yn y gweithle, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> - llithr, baglu, cwmpo - storfeydd - lleoedd cadw bwyd - gwydro - bysedd yn sownd - mynd i leoedd heb awdurdod (cypyrddau glanhawyr, storfeydd bwyd, ceginau) | <p>Staff brechwast am ddim</p> <p>Dysgwyr brechwast am ddim (gan gynnwys anghenion arbennig)</p> <p>Rhieni/gofalwyr dysgwyr (sy'n dod i'r sesiynau brechwast)</p> | C | <p>Yn ychwanegol at arsylwi dyddiol gan staff yr ysgol, defnyddir rhestr gyfeirio i gynnal asesiad risg o adeilad a safle'r ysgol unwaith bob tymor, gan uwch-aelod o'r staff. Cynhwysir ystyriaeth o'r rhannau o'r ysgol a ddefnyddir ar gyfer sesiynau brechwast am ddim. Cymerir camau priodol os canfyddir bod angen gwneud gwaith cywiro/gwella.</p> <p>Y meysydd a gynhwysir yn benodol yn yr ymarferiad hwn yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> - grisiau, coridorau, llwybrau y mae angen eu cadw mewn cyflwr diogel - ystafelloedd dosbarth, storfeydd a choridorau, y mae angen eu cadw'n lân a threfnus - goleuadau digonol, gan gynnwys yn y manau allanol sy'n arwain at y fynedfa i'r sesiynau brechwast am ddim, coridorau, uwch ben grisiau yn ogystal ag yn y manau a ddefnyddir - gwydr mewn manau risg uchel naill ai o safon diogelwch neu wedi ei orchuddio â ffilm rhag chwillfriwio - gosod gardiau bysedd ar ymylon mewnol colfachau'r drysau lle mae'r risg o achosi niwed trwy ddal bysedd yn uchel (e.e. drysau toiledau a mynedfeydd) - cypyrddau glanhawyr/storfeydd bwyd, ac ati, i'w cadw dan glo - atal neu gyfyngu ar fynediad dysgwyr i'r manau lle paratoir/trinnir bwyd. | <p>Gollyngiadau a hylifau corff dysgwyr (e.e. cyfog) i'w glanhau ymaith ar unwaith yn unol â threfniadau arferol yr ysgol.</p> <p>Arwyddion rhybuddio plastig (megis 'llawr gwlyb') i gael eu defnyddio bob amser wrth lanhau.</p> <p>Gweithdrefn ysgol newydd wedi ei mabwysiadu – pan ddefnyddir y brif neuadd ar gyfer gweithgareddau brechwast am ddim, ysgubir llawr y neuadd ar ddiwedd y gweithgareddau er mwyn cael gwared ag unrhyw olion bwyd a/neu ollyngiadau, cyn defnyddio'r neuadd drachefn ar gyfer gwasanaethau boreol neu ddibenion eraill.</p> <p>Mae'r llwybrau mynediad allanol at y sesiwn brechwast am ddim yn cael eu gwirio'n ddyddiol a'u trin gyda gro/halen ar dywydd rhewllyd.</p> | I |

| Rhestrwch y peryglon yma: | Rhestrwch grwpiau o bobl sydd, yn arbennig, o dan risg oherwydd y peryglon sylweddol a nodwyd gennych: | Risg | Rhestrwch y rheolaethau presennol yma – neu nodwch lle mae'r wybodaeth i'w chael: | Disgrifiwch y gweithredu sydd ei angen er mwyn gwella pethau, os yw'n rhesymol ymarferol gwneud rhagor i reoli'r risgiau. Rhaid <u>pennu hefyd y dyddiad targed ar gyfer gweithredu, a'r person sydd i weithredu</u> | Y risg weddilliol |
|--|---|------|--|--|-------------------|
| Traffig cerbydau nas rheolir ar safle'r ysgol pan fo cerddwyr hefyd yn bresennol | <p>Staff brechwast am ddim</p> <p>Dysgwyr brechwast am ddim (gan gynnwys anghenion arbennig)</p> <p>Rhieni/gofalwyr dysgwyr (sy'n dod i'r sesiynau brechwast)</p> | C | <p>Mae asesiad risg rheoli traffig wedi ei gynnal yn yr ysgol.</p> <p>Gweithredir mesurau i wahanu cerbydau rhieni/gofalwyr sy'n cyrraedd y safle (i ddanfôn dysgwyr, ac ati) oddi wrth unrhyw gerddwyr sy'n bresennol.</p> <p>Rhoddyd sylw penodol i ddarparu'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - marcio'n eglur y troetffyrdd, llwybrau a ffyrdd mewnol - gwahanu cerddwyr a cherbydau yn effeithiol - arwyddion eglur i ddangos y terfyn cyflymder gofynnol (5mya) - cyfathrebu â chontractwyr (allanol yn ogystal â gwasanaethau a ddarperir yn fewnol gan y Cyngor) ynglŷn â threfnu amseroedd ar gyfer danfôn nwyddau/casglu sbwriel, ac ati/er mwyn osgoi cyrraedd yr un pryd â'r rhai sy'n dod yn gynnar ar gyfer y sesiynau brechwast am ddim. | | I |
| Staff brechwast am ddim heb gliriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd | Dysgwyr brechwast am ddim | C | Mynnir bod gan bob oedolyn gliriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn y caiff gychwyn gweithio. | | I |

| Rhestrwch y peryglon yma: | Rhestrwch grwpiau o bobl sydd, yn arbennig, o dan risg oherwydd y peryglon sylweddol a nodwyd gennych: | Risg | Rhestrwch y rheolaethau presennol yma – neu nodwch lle mae'r wybodaeth i'w chael: | Disgrifiwch y gweithredu sydd ei angen er mwyn gwella pethau, os yw'n rhesymol ymarferol gwneud rhagor i reoli'r risgiau. Rhaid <u>pennu hefyd y dyddiad targed ar gyfer gweithredu, a'r person sydd i weithredu</u> | Y risg weddilliol |
|---|--|------|--|---|-------------------|
| Y staff brechwast am ddim yn anghyfarwydd â gweithdrefnau perthnasol yr ysgol | Staff brechwast am ddim | C | <p>Diweddarwyd polisi iechyd a diogelwch yr ysgol i adlewyrchu'r cyfrifoldebau a'r trefniadau manwl ar gyfer gweithredu sesiynau brechwast am ddim.</p> <p>Mae polisi'r ysgol wedi ei egluro i bob aelod o'r staff, gan gynnwys y rhai sy'n goruchwylio'r sesiynau brechwast am ddim.</p> <p>Darparwyd menyg tafladwy di-latecs i'r staff brechwast am ddim at gyfer glanhau unrhyw ollyngiadau o hylifau corff.</p> <p>Darperir gwybodaeth i'r staff brechwast am ddim am bolisi'r ysgol leol ynglŷn â cheisiadau gan rieni/gofalwyr am iddynt roi meddyginiaethau i blant.</p> <p>Mae gan y staff brechwast am ddim fanylion cyswllt ar gyfer rheini/gofalwyr, er mwyn cysylltu pe bai plentyn yn mynd yn sâl, ac ati, yn ystod sesiwn brechwast am ddim</p> | <p>Mae Cod Canllawiau'r Cyngor Iechyd a Diogelwch, sy'n gymwys i sesiwn brechwast am ddim, ar gael i'r staff.</p> <p>Rhaid i unrhyw rieni/gofalwyr sy'n ymuno â'u plant am frechwastau am ddim (ac felly'n bresennol ar y safle) lofnodi i mewn ac allan fel ymwelwyr. Gellir ychwanegu'r wybodaeth a gesglir at y gofrestr dysgwyr, y bydd rhaid ei defnyddio i gyfrif pennau os caiff yr adeilad ei wacáu mewn argyfwng.</p> <p>Os byddant yn rhoi meddyginiaeth i blentyn, bydd rhai i'r staff brechwast am ddim fod yn gwbl ymwybodol o bolisi'r ysgol a'r gweithdrefnau arferol (h.y. ffotograffau o'r dysgwyr â gofynion meddygol a thafleuni cofnod pro fforma, ac ati). Dylid cysylltu â nyrs yr ysgol ar gyfer unrhyw anghenion hyfforddi (e.e. defnyddio epipen, ac ati).</p> | I |

| Rhestrwch y peryglon yma: | Rhestrwch grwpiau o bobl sydd, yn arbennig, o dan risg oherwydd y peryglon sylweddol a nodwyd gennych: | Risg | Rhestrwch y rheolaethau presennol yma – neu nodwch lle mae'r wybodaeth i'w chael: | Disgrifiwch y gweithredu sydd ei angen er mwyn gwella pethau, os yw'n rhesymol ymarferol gwneud rhagor i reoli'r risgiau. Rhaid <u>pennu hefyd y dyddiad targed ar gyfer gweithredu, a'r person sydd i weithredu</u> | Y risg weddilliol |
|---|--|------|---|--|-------------------|
| Y modd y cyfathrebir gwybodaeth am ddysgwyr yn wael | Dysgwyr brechwast am ddim | C | <p>Cyflogir nifer o'r staff brechwast am ddim yn ystod y diwrnod ysgol hefyd, ac felly maent yn adnabod y dysgwyr yn dda.</p> <p>Mae pob un o'r staff brechwast am ddim yn gyfarwydd ag anghenion meddygol, dietegol ac ymddygiadol y dysgwyr, yn ogystal ag unrhyw anghenion arbennig eraill neu alergeddau.</p> | | I |

| Rhestrwch y peryglon yma: | Rhestrwch grwpiau o bobl sydd, yn arbennig, o dan risg oherwydd y peryglon sylweddol a nodwyd gennych: | Risg | Rhestrwch y rheolaethau presennol yma – neu nodwch lle mae'r wybodaeth i'w chael: | Disgrifiwch y gweithredu sydd ei angen er mwyn gwella pethau, os yw'n rhesymol ymarferol gwneud rhagor i reoli'r risgiau. Rhaid pennu hefyd y dyddiad targed ar gyfer gweithredu, a'r person sydd i weithredu | Y risg weddilliol |
|-----------------------------------|--|------|--|---|-------------------|
| Safonau gwael o ran hylendid bwyd | <p>Staff brecwast am ddim</p> <p>Dysgwyr brecwast am ddim (gan gynnwys anghenion arbennig)</p> <p>Rhieni/gofalwyr dysgwyr (sy'n dod i'r sesiynau brecwast)</p> | I | <p>Rhaid i'r staff brecwast am ddim sy'n paratoi neu'n trin bwyd yn y categori risg isel (e.e. tost, grawnfwyd) weithredu'r egwyddorion diogelwch bwyd sylfaenol/hanfodol fel a ganlyn; a dylent hefyd gwblhau Tystysgrif Sylfaen y Sefydliad Siartredig Iechyd Amgylcheddol (CIEH) mewn Hylendid Bwyd o fewn 3 mis ar ôl cychwyn.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Sicrhau nad yw cynhyrchion wedi mynd heibio'u dyddiad. - Golchi'r dwylo cyn paratoi/trin bwyd, ac yn rheolaidd yn ôl yr angen. - Gwisgo dillad addas. - Gwallt hir wedi ei glymu yn ôl. - Gosod gorchudd addas (o liw glas) ar unrhyw doriadau neu friwiau. - Dim ysmegu nac yfed wrth drin/paratoi bwyd. <p>Os datblygir bwydlenni brecwast yn y categori risg uwch (h.y.. wyau, cigoedd) dylai'r staff gwblhau Tystysgrif Sylfaen y Sefydliad Siartredig Iechyd Amgylcheddol (CIEH) mewn Hylendid Bwyd cyn paratoi/trin bwyd, neu gael eu goruchwyllo yn effeithiol gan rywun sydd â'r cymhwyster hwnnw.</p> | Rhaid i'r staff brecwast am ddim fod yn ymwybodol o'r angen i weithredu polisi'r ysgol ar reoli ysmegu. | I |

Atodiad C: Llythyr templed enghreifftiol i'w ddefnyddio gan gorff llywodraethu i hysbysu awdurdod lleol i roi'r gorau i ddarparu brecwast am ddim

Annwyl

Yn dilyn ein trafodaethau, rydym wedi penderfynu y dylai'r ddarpariaeth o frechwastau am ddim gan yr awdurdod lleol yn ein hysgol ddod i ben ar
(dyddiad).

Daethom i'r penderfyniad y byddai'n afresymol parhau i ddarparu brecwastau am ddim yn ein hysgol, am y rhesymau canlynol:

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Mae rhieni/gofalwyr y plant sy'n ddysgwyr yn yr ysgol wedi eu hysbysu o'n penderfyniad.

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn cydnabod derbyn y llythyr hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

Cadeirydd y corff llywodraethu

Atodiad D: Llythrau templed enghreifftiol i'w dyroddi gan awdurdod lleol i gorff llywodraethu ynglŷn â pheidio â darparu, neu roi'r gorau i ddarparu, brecwastau am ddim

Annwyl

Rwyf yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu o'r sefyllfa/canlyniad ynglŷn â darparu brecwastau am ddim yn ysgol

Ar sail ein trafodaethau a'r wybodaeth a ddarparwyd gennych chi, penderfynodd yr awdurdod lleol

naill ai:

na fydd yn cefnogi eich cais am ddarpariaeth o frecwastau am ddim oherwydd ein bod o'r farn y byddai'n afresymol darparu brecwastau am ddim yn eich ysgol am y rhesymau canlynol:

.....

.....

.....

.....

neu:

y bydd yn rhoi'r gorau i ddarparu brecwastau am ddim yn eich ysgol o
..... (dyddiad) ymlaen, am y rhesymau canlynol:

.....

.....

.....

.....

Yr eiddoch yn gywir